

TELERAU AC AMODAU PENODI AR GYFER AELOD BWRDD ANWEITHREDOL CYMRU CREADIGOL

CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn nodi prif delerau ac amodau eich penodiad â Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol.

Y PARTÏON

(1)

(2) Llywodraeth Cymru

1. CYFNOD Y PENODIAD

- a) Bydd eich penodiad yn dechrau ar Dachwedd y 1af 2020 ac yn dod i ben yn awtomatig ar Dachwedd y 1af 2023. Gall y naill barti neu'r llall roi terfyn ar y penodiad yn gynharach drwy roi rhybudd ysgrifenedig 3 mis ymlaen llaw

2. TEITL Y RÔL A'R DYLETSSWYDDAU

- a) Rydych wedi'ch penodi'n Aelod Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol. Mae eich dyletswyddau presennol wedi'u nodi yn Atodlen 1 a gallent gael eu newid o dro i dro. Byddwn yn trafod unrhyw newidiadau â chi yn llawn ac yn rhoi gwybod ichi yn ysgrifenedig.
- b) Yr ymrwymiad amser ar gyfer rôl Aelod yw fyny i 8 gwaith y flwyddyn. Bydd disgwyl ichi fynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd. Drwy dderbyn y penodiad hwn, rydych yn cadarnhau y gallwch neilltuo digon o amser i fodloni disgwyliadau eich rôl. Gellir terfynu eich penodiad os bydd eich presenoldeb mor annibynadwy fel bod hynny'n effeithio ar y gallu i weithredu Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol yn dda.
- c) Bydd disgwyl ichi gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus fel y'u nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Mae rhagor o fanylion am y safonau hyn ar gael yn Atodlen 2, Atodiad A. Dyma nhw yn gryno: Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn Agored, Gonestrwydd, Arweinyddiaeth.

3. STATWS

- a) Nid ydych yn weithiwr cyflogedig. Felly, ni ddylid dehongli bod unrhyw beth yn y telerau a'r amodau hyn yn gontract cyflogaeth rhyngoch chi a'r Adran, na chymryd eu bod yn creu contract o'r fath. Yn ogystal â hyn, ni ddylid dehongli bod unrhyw beth yn y telerau a'r amodau hyn yn gontract gwasanaeth rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru, na chymryd eu bod yn creu contract o'r fath.
- b) Bydd y penodiad hwn yn cael ei drin fel penodiad i Swydd Gyhoeddus. Felly, at ddibenion treth cewch eich trin fel Deiliad Swydd Gyhoeddus o ran y penodiad hwn.

4. TÂL CYDNABYDDAETH

- a) Y tâl cydnabyddiaeth ar gyfer y rôl hon yw £198, yn seiliedig ar gost fesul cyfarfod a fynychwyd.
- b) Nid yw'r penodiad hwn yn un pensiynadwy.
- c) Ni thelir bonws.
- d) Bydd Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol yn ad-dalu'r holl gostau rhesymol (gan gynnwys costau teithio a chynhaliaeth a threuliau eraill) a dalwyd yn gywir ac yn angenrheidiol mewn perthynas â'ch penodiad. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd Stephanie Woodward yn rhoi gwybodaeth ichi am y treuliau sy'n gymwys, y cyfraddau cyfredol a'r broses ar gyfer hawlio ad-daliad.

5. EIDDO'R CORFF A NODDIR

- a) Bydd pob dogfen, llawlyfr, caledwedd a meddalwedd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i chi eu defnyddio, ynghyd ag unrhyw ddata neu ddogfennau (gan gynnwys copiâu) a gynhrychir, a gynhelir neu a storir ar systemau cyfrifiadurol neu offer electronig arall (gan gynnwys ffonau symudol) yn parhau'n eiddo i Lywodraeth Cymru.
- b) Bydd unrhyw beth o eiddo Llywodraeth Cymru sydd yn eich meddiant ac unrhyw ddogfen wreiddiol neu gopi a gawsoch yn ystod eich cyflogaeth yn cael eu dychwelyd ar unrhyw adeg, os gwneir cais amdanynt, a ph'un bynnag cyn i'ch penodiad ddod i ben.

6. DIDYNIADAU

- a) Rydych yn awdurdodi Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol ar unrhyw adeg yn ystod eich penodiad a/neu ar ôl iddo ddod i ben i ddiwynnu unrhyw symiau sy'n ddyledus gennych chi i Fwrdd Anweithredol Cymru Greadigol ar unrhyw adeg o unrhyw symiau eraill sy'n ddyledus i chi o dan y contract hwn.

7. RHYBUDD SWYDD A DIRWYN PENODIAD I BEN

- a) Er gwaethaf cymalau 7(b) i (d) isod, gall y nail barti neu'r llall derfynu'r penodiad hwn am unrhyw reswm cyn diwedd y cyfnod penodedig drwy roi rhybudd ysgrifenedig o dri mis.
- b) Nid fydd angen unrhyw gyfnod rhybudd os caiff y penodiad ei derfynu'n gynnar drwy gydsyniad y naill ochr a'r llall.
- c) Pe bai'r Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol yn cael ei ddiddymu, ei ailstrwythuro neu ei ddirwyn i ben cyn diwedd cyfnod arferol eich penodiad, byddai eich penodiad yn gorffen adeg y diddymiad, yr ailstrwythuro neu'r dirwyn i ben, neu ar ba ddyddiad bynnag a bennir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

- d) Gall Llywodraeth Cymru derfynu eich penodiad yn syth drwy roi hysbysiad ysgrifenedig:
- i. os byddwch yn mynd yn fethdalwr neu'n gwneud trefniant â chredydwr,
 - ii. os bydd eich ystad wedi'i secwestro yn yr Alban neu eich bod yn ymrwymo i raglen trefnu dyledion o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyledion (Yr Alban) 2002 (asp 17) fel y dyledwr neu eich bod, o dan gyfraith yr Alban, wedi rhoi gweithred ymddiriedaeth i gredydwr,
 - iii. os byddwch yn dod yn destun gorchymyn rhyddhau o ddyled neu orchymyn cyfyngiadau methdaliad,
 - iv. os ydych wedi bod yn absennol o gyfarfodydd y Bwrdd am gyfnod o fwy na chwe mis heb ganiatâd y Llywydd,
 - v. os byddwch wedi'ch anghymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni,
 - vi. os byddwch wedi'ch cael yn euog o drosedd (cyn neu ar ôl eich penodi) ac nad yw'r euogfarn wedi'i disbyddu at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (p. 53),
 - vii. os byddwch yn derbyn unrhyw anrhegion neu letygarwch yn amhriodol,
 - viii. os byddwch yn methu â datgan unrhyw wrthdaro buddiannau,
 - ix. os bydd darpariaeth statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'ch penodiad gael ei derfynu am ba bynnag reswm,
 - x. os byddwch yn mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus, neu
 - xi. os na fyddwch, ym marn Llywodraeth Cymru/y Gweinidog, yn gallu cyflawni swyddogaethau'r penodiad am unrhyw reswm arall.
- e) Bydd gofyn ichi roi gwybod i Lywodraeth Cymru ar unwaith os bydd unrhyw un o'r sefyllfaoedd a restrwyd yng nghymal 7(d) uchod yn dod yn berthnasol ichi yn ystod eich penodiad.
- f) Os bydd Llywodraeth Cymru am derfynu eich penodiad am ba bynnag reswm cyn i'r cyfnod penodedig ddod i ben, byddwch yn cael gwybod am y bwriad a'r rhesymau drosto a chewch gynnig y cyfle i gael cyfarfod ag uwch-swyddog yn Llywodraeth Cymru cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud. Os caiff eich penodiad ei derfynu wedi hynny byddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig am hyn, a bydd yr hysbysiad yn cynnwys datganiad o'r rhesymau dros derfynu'r penodiad.

- g) Os cewch wybod bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu terfynu eich penodiad yn unol â 7(f) uchod, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol ichi beidio â chyflawni eich rôl fel Aelod Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol tan i benderfyniad gael ei wneud am derfynu eich penodiad.
- h) Os byddwch destun ymchwiliad gan yr heddlu, neu os cewch eich arestio ganddynt, rhaid ichi roi gwybod i Lywodraeth Cymru, a allai ofyn ichi roi'r gorau i'ch swydd tra bydd yr ymchwiliad yn mynd rhagddo.
- i) Os caiff y penodiad hwn ei derfynu am unrhyw reswm, bydd gennych hawl i'r ffioedd cronnus sy'n eiddo ichi ar ddyddiad y terfyniad, ynghyd ag ad-daliad o unrhyw gostau sydd wedi'u gwario'n briodol hyd y dyddiad hwnnw yn unig. Er mwyn osgoi amwysedd, ni fyddwch yn cael iawndal nac unrhyw daliadau eraill mewn perthynas â therfynu eich penodiad.

8. YMDDYGIAD

- a) Fel Deiliad Swydd Gyhoeddus, mae'n ofynnol ichi gadw at y "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" fel y'u nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (copi wedi'i atodi yn Atodle 2, Atodiad A).
- b) Rydych yn atebol i'r Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol a, thrwy'r Adran Noddi, i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth am eich ymddygiad ac mae disgwyl ichi weithio'n unol â'r safonau personol a phroffesiynol uchaf.
- c) Os credwch fod gofyn ichi, neu staff Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol weithredu mewn ffordd:
- sy'n anghyfreithlon, yn amhriodol neu'n anfoesegol;
 - sy'n mynd yn groes i gonfensiwn cyfansoddiadol neu god proffesiynol;
 - a allai olygu camweinyddu posibl; neu
 - sy'n anghyson fel arall â'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, mae cyfrifoldeb arnoch i roi gwybod am y mater drwy Bennaeth yr Adran Noddi.
- d) Gall fod adegau prin le bo pryderon difrifol iawn neu bryderon brys pan fyddwch yn teimlo na fyddai'n briodol codi'r mater yn fewnol yn y Corff/gyda'r Cadeirydd (naill ai gyda'r Cadeirydd neu unrhyw swyddog enwebedig o Fwrdd Anweithredol Cymru Greadigol . Os nad yw'n bosibl codi'r mater yn fewnol, dylech ei godi gyda Phennaeth yr Adran Noddi yn Llywodraeth Cymru neu, yn yr achosion mwyaf eithafol, gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y Corff. Dylech roi gwybod i'r awdurdodau priodol am weithgarwch troseddol neu anghyfreithlon gan eraill.

9. RHODDION A LLETYGARWCH

- a) Ni ddylech dderbyn unrhyw roddion neu letygarwch lle gellid barnu bod hynny'n amharu ar eich penderfyniadau personol neu'ch uniondeb neu'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol. Os byddwch yn dewis derbyn rhoddion neu letygarwch, rhaid i hyn gael ei gofnodi yng nghofrestr eich Bwrdd.
- b) Rhaid ichi gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus 2019 (y Cod), fel y'i gofodir o dro i dro, o ran derbyn rhoddion a lletygarwch. Amgaeir y Cod yn Atodlen 3.

10. GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU

- a) Rhaid ichi sicrhau nad oes gwrthdaro, neu y gellir ystyried bod gwrthdaro, rhwng eich dyletswyddau cyhoeddus a'ch buddiannau preifat – ariannol neu fel arall.
- b) Rhaid ichi gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus 2019 (y Cod) ar ddelio â gwrthdaro rhwng buddiannau. Bydd y rhain fan lleiaf yn ei gwneud yn ofynnol ichi ddatgan yn gyhoeddus unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro â'ch dyletswyddau Cyhoeddus neu y gellid barnu eu bod yn gwneud hynny. Yn gyffredinol, dylid datgan pob buddiant ariannol.
- c) Rhaid ichi adael trafodaeth neu benderfyniad ynghylch unrhyw fater (gan gynnwys trafodaethau ffurfiol Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol a thrafodaethau anffurfiol) lle bo gennych fuddiant ariannol neu unrhyw fater arall lle gallai eich buddiant awgrymu bias posibl.
- d) Bydd yr holl fuddiannau sy'n cael eu datgan yn cael eu cynnwys yng nghofrestr y Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol o fuddiannau aelodau sy'n cael ei chynnal gan y Bwrdd a rhaid ichi sicrhau eich bod ei llenwi'n gywir ac yn parhau i'w diweddarau.
- e) Gallai gwybodaeth am wrthdaro posibl rhwng buddiannau gael ei datgelu i'r cyhoedd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Wrth dderbyn y penodiad hwn, rydych yn deall y bydd modd i'r holl wybodaeth hon, neu rywfaint ohoni, gael ei datgelu.
- f) Pan gofnodir buddiant yn y gofrestr, rhaid ichi geisio cadarnhad Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw wrthdaro wedi digwydd, a'i bod yn briodol ichi barhau'n rhan o'r Bwrdd. Ni ddylech wneud unrhyw waith ar ran y Bwrdd tan ichi gael y cadarnhad hwn. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a oes gwrthdaro, mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu a oes gwrthdaro.

11. GWEITHGARWCH GWLEIDYDDOL

- a) Yn eich rôl gyhoeddus, dylech fod yn wleidyddol ddiuedd, a dylai hynny fod yn amlwg i eraill. Ni chewch fod mewn swydd y telir amdani gan blaid wleidyddol na gweithio mewn rôl arbennig o sensitif neu uchel ei prhoffil mewn plaid wleidyddol. Dylech ymatal rhag cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch gwleidyddol dadleuol a chydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn rheolau Llywodraeth Cymru ar fod yn bresennol mewn Cynadleddau Pleidiau ac ar ymddygiad yn ystod y cyfnod cyn etholiadau a refferenda, boed yn rhai lleol, cenedlaethol neu Ewropeaidd.
- b) O ran materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol, ni ddylech wneud datganiadau gwleidyddol na chymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch gwleidyddol arall.
- c) Dylech roi gwybod i Lywodraeth Cymru ac aros am gadarnhad ysgrifenedig cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol arwyddocaol.
- d) Mae rhagor o fanylion am y disgwyliadau ynghylch gweithgarwch gwleidyddol ar gael yn y Cod yn Atodlen 2.
- e) Os cewch eich enwebu i sefyll mewn etholiad ar gyfer Senedd Cymru neu Dŷ'r Cyffredin, byddwch yn ymddiswyddo o'r penodiad hwn.

12. CYFRINACHEDD/DEFNYDDIO GWYBODAETH SWYDDOGOL

- a) Mae'n ofynnol ichi fod yn ofalus wrth ddefnyddio gwybodaeth a gewch wrth gyflawni eich dyletswyddau, a diogelu gwybodaeth sy'n cael ei chadw'n gyfrinachol.
- b) Rydych yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989 ac ni ddylech ddatgelu, heb awdurdod, unrhyw wybodaeth gyfrinachol ei natur, neu wybodaeth sy'n cael ei darparu'n gyfrinachol. Ni ddylech gamdefnyddio gwybodaeth a gewch yn rhinwedd eich penodiad er budd personol neu ddibenion gwleidyddol.
- c) Gallai camdefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn rhinwedd eich swydd fel Aelod o'r Bwrdd arwain at derfynu eich penodiad ar unwaith heb rybudd a/neu at erlyniad troseddol.
- d) Mae'r gofynion yng nghymal 11 yn berthnasol yn ystod cyfnod eich penodiad ac ar ôl i'ch penodiad ddod i ben.

13. PENODIADAU BUSNES

a) Mae'n ofynnol ichi gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru cyn derbyn unrhyw benodiad neu gyflogaeth a gynigir ichi yn ystod tymor eich penodiad lle byddai eich dyletswyddau swyddogol yn y Bwrdd yn golygu:

i) cysylltiad personol â'r cwmni neu sefydliad arall sy'n gwneud y cynnig; a/neu

ii) mynediad at wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol yn ymwneud â'r cwmni neu'r sefydliad arall sy'n gwneud y cynnig, neu â chystadleuydd i'r cwmni neu'r sefydliad arall sy'n gwneud y cynnig.

b) Wrth adael eich swydd, rhaid ichi gydymffurfio â rheolau Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol o ran derbyn cyflogaeth neu benodiadau yn y dyfodol.

14. DIOGELU DATA

Wrth dderbyn y penodiad hwn, rydych yn cydsynio y caiff Llywodraeth Cymru gadw a phrosesu gwybodaeth amdanoch at ddibenion cyfreithiol, personél a gweinyddol, ac yn benodol ar gyfer prosesu unrhyw ddata personol sensitif (fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018). Rydych yn cydsynio y caiff Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth o'r fath amewn amgylchiadau priodol, gan gynnwys yn y Gwasanaeth Sifil wrth adrodd i Bwyllgorau Senedd Cymru a Senedd y DU neu i Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol neu fel arall.

15. RHWYMEDIGAETH

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad ydych yn gorfod defnyddio'ch adnoddau personol i dalu am unrhyw rwymedigaeth sifil personol a allai godi wrth ichi gyflawni eich swyddogaethau ar y Bwrdd, cyn belled â'ch bod wedi gweithredu'n onest, yn rhesymol, yn ddidwyll a heb esgeulustod.



Llofnod

Ar ran y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru

(Dyddiad) 6 Hydref 2020

Llofnod _____

[Aelod]

(Dyddiad) _____

Atodlen 1

Rôl y Bwrdd yw:

- darparu arweinyddiaeth effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol;
- craffu ar safonau cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- craffu ar weithgareddau'r asiantaeth fewnol er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol;
- monitro perfformiad gan gynnwys perfformiad ariannol, er mwyn sicrhau bod yr asiantaeth fewnol yn cyflawni ei nodau, ei hamcanion a'i thargedau perfformiad yn llawn;
- cynghori ar nodau strategol ac amcanion Cymru Greadigol a'u dwyn ymlaen sy'n gyson â'i bwrpas cyffredinol ac o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan y Gweinidog;
- craffu ar y cynllun busnes a'r gyllideb;
- craffu ar brosesau busnes sydd wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion busnes Cymru Greadigol;
- ystyried a chynghori ar ymgysylltu â'r diwydiant, rhwydweithio, marchnata a strategaethau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun busnes a chyfeiriad strategol yr asiantaeth fewnol.

Atodlen 2

COD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU BYRDDAU CYRFF CYHOEDDUS 2019

Bydd angen i'r ymgeisydd ymgysgu â'r Cod isod:

<https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies-june-2019>

[MAE FERSIWN GYMRAEG AR GAEL GAN YR UNED PENODIADAU
CYHOEDDUS]

Atodiad A (er gwybodaeth)

Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu elwa mewn ffordd arall.

Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain mewn sefyllfa o rwymedigaeth ariannol nac unrhyw rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu ar y ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt fod yn agored i unrhyw graffu sy'n briodol i'w swydd.

Bod yn Agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynglŷn â'u holl benderfyniadau a'u gweithredoedd. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar wybodaeth onid oes angen amlwg am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

Gonestrwydd

Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.